- gynnig gytundeb cyllido cyfnod penodol i CPR i gyflawni amcanion penodol o ran datblygu ffurfiau ar gelfyddyd yng Nghymru;
- hysbysebu cynllun, ar gyfer 2000-01, i gefnogi ffurfiau ar gelfyddyd a fyddai'n gwahodd ceisiadau am brosiectau a chysiau cyfnod penodol i hyrwyddo'r amcan hwn;
- sicrhau bod y prif sefydliadau yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad celfyddydol priodol yn eu rhaglen waith.

## 7.2 Hyfforddiant Unigol

7.2.1 Yn y dyfodol, bydd cynlluniau hyfforddi CCC i artistiaid theatr unigol yn canolbwyntio ar gyfleoedd i'r ymarferwr unigol. Gall preswylfeydd a chomisiynau i awduron barhau yn y dyfodol trwy gymalau, a ymgorfforir mewn cytundebau cyllido gyda chleientiaid refeniw, sy'n pennu'r meini prawf lleiaf sy'n ofynnol, a bydd yn rhaid iddynt ymgymryd ag (er enghraifft) un comisiwn y flwyddyn. Dylai'r cynllun hwn ganolbwyntio ar grantiau i:

- gyfarwyddwyr cynorthwyol a chysylltiol. (Rhaid i brif sefydliadau, megis Clwyd Theatr Cymru, ddangos ymrwymiad i un prosiect o leiaf y flwyddyn);
- ysgoloriaethau i ddramodwyr cydnabyddedig - yn arbennig os ydynt yn dangos potensial ar gyfer partneriaeth yn y dyfodol;

6.4.2 Mae CCC wedi ymrwymo i ystyried ymhellach sut y gellir datblygu cynyrchiadau proffesiynol o safon a'u cynnig i gymunedau llai a byddant yn ymgynghori ar y mater yn gynnar yn yr hydref 1999.

## 6.5 Prosiectau

6.5.1 Bu'n anodd cynnal y gronfa brosiectau yn y gorffennol oherwydd y pwysau ar refeniw yn sgîl y gostyngiad mewn cyllid oddi wrth y llywodraeth. Yng nghydestun yr agwedd newydd tuag at ddarpariaeth drama refeniw, mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid cynnal ei ymrwymiad i waith newydd a gwaith sy'n ymddangos trwy'r gronfa brosiectau.

6.5.2 Bydd cyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer ystod amrywiol o brosiectau byr cyfnod penodol. Bydd lleihau'r rhestr o gleientiaid refeniw yw golygu mwy o arian i brosiectau a hyblygrwydd. Bwriada CCC gynyddu'r adnoddau yn y maes hwn ac efallai y bydd yn cyflwyno cynllun gyda nifer cyfyngedig o ymrwymadau prosiect dros ddwy flynedd. Gellir cynnig hyn i nifer bychan o gwmnïau y mae CCC am eu hannog trwy ganiatáu iddynt gynllunio eu prosiectau dros gyfnod hwy o amser.

6.5.3 Bydd y cynllun prosiectau yn un cynhwysol a bydd yn annog gwaith newydd a ffyrdd newydd o lwyfannu deunydd sy'n bodoli'n barod. Nod CCC fydd cefnogi ystod ac amrywiaeth o sgiliau creadigol i ddenu amrediad o gynulleidfaoedd. Bydd hefyd am annog datblygu cynulleidfaoedd ynghyd â lledaenu prosiectau dros ardal ddaearyddol eang. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gofyn i ymgeiswyr fod yn bartneriaethau rhwng artistiaid a chyflwynwyr (er enghraifft, canolfan, gŵyl neu ryw fath arall o hyrwyddwr profiadol). Bydd croeso i gydfentrau, er enghraifft gydag artistiaid o ddisgyblaethau tu hwnt i'r theatr, neu o'r tu allan i Gymru neu rai sydd wedi gwneud eu henw yn rhyngwladol. Bydd canllawiau diwygiedig ar gael i'r cynllun prosiectau hwn.

6.5.4 Ehangwyd canllawiau cynllun cynhyrchu prosiectau 1999-2000 i gwmpasu diffiniad ehangach o'r 'celfyddydau perfformio'. Bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

6.5.5 Bydd y gyllideb ar gyfer cynllun Interlink CCC - cronfa brosiectau i gynorthwyo teithio i Gymru a chydweithrediad ag artistiaid rhyngwladol - yn cael ei chynyddu ym 1999-2000. Bydd Interlink yn parhau i gael ei weinyddu gan Reolwr Rhyngwladol CCC.

### Bwriada CCC:

- gynyddu'r cyfleoedd cyllido hyblyg i ystod o brosiectau cynhyrchu unwaith-ar-y-tro trwy fwy o gymorth ariannol i'r cynllun prosiectau;
- parhau i ysgogi ymweliadau a chydweithrediad rhyngwladol ym maes y celfyddydau perfformio trwy'r cynllun Interlink.

## 7. Cefnogaeth i'r ffurfiau ar gelfyddyd a chefnogaeth i artistiaid unigol

*Annog datblygiad creadigol artistiaid a'u helpu i ddatblygu eu syniadau a'u technegau.*

- ymgorffori elfen o ddatblygu a llwyfannu ysgrifennu newydd yng nghytundeb cyllido CCC gyda'r prif gwmnïau cynhyrchu a theithio, yn arbennig y cwmnïau cenedlaethol;
- parhau i drafod gyda chydweithwyr yn y cyfryngau darlledu a buddianwyr eraill er mwyn ystyried ffyrdd o ddatblygu ysgrifennu newydd i'r dyfodol;
- parhau i ychwanegu at y stoc o argraffiadau safonol o ddramâu cyfoes gan ddramodwyr o Gymru.

## 6.2 Cefnogaeth refeniw i waith arall

6.2.1 Ar adeg pan fo mwy a mwy o lais yn cael ei roi i'r berthynas rhwng y cynhyrchydd a'r cyflwynydd, mae'n hanfodol fod CCC yn parhau i gefnogi gwaith arbrofol a gwaith theatr mewn arddulliau arloesol nad yw o anghenraid yn seiliedig ar destun nac yn waith prif-ffrwd. Er mwyn amrywiaeth ac i ddatblygu arferion, bwriada CCC gynnig un cytundeb cyllido am gyfnod penodol o 3 blynedd. Mewn gwell hinsawdd cyllido, byddai CCC yn dymuno cynnig mwy o gytundebau cyfnod penodol i gefnogi arferion newydd.

6.2.2 Bwriada CCC gynnig cymorth refeniw ar lefel 1999-2000 i Volcano Theatre ar gyfer 1999-2000 a dechrau'r cytundeb cyllido cyfnod penodol newydd yn 2000-2001.

6.2.3 Bydd CCC yn anrhydeddu ei ymrwymiad i gefnogi gwaith Brith Gof am chwe mis o 1999-2000 ac mae'n disgwyl derbyn ceisiadau gan artistiaid sy'n gysylltiedig â'r cwmni hwn, sy'n nodweddiadol o lawer o artistiaid sydd am greu dulliau mynegiant unigolyddol, dan y trefniadau newydd ar gyfer y cynllun prosiectau.

6.2.4 Bydd y cynnydd yn y gronfa brosiectau yn adlewyrchu ymrwymiad CCC i arloesi a bydd, yn rhannol, yn gyfrwng ar gyfer ymchwil a datblygu mewn arferion theatr.

### **Bwriada CCC:**

- gynnig un cytundeb cyfnod penodol i Volcano ar gyfer theatr arbrofol;
- cefnogi gwaith newydd, yn enwedig waith arloesol ei natur, trwy'r cynllun prosiectau;
- dylai cleientiaid a gyllidir wneud gwaith arloesol priodol trwy eu rhaglenni gwaith blynyddol.

## 6.3 Cynrychiadau i bobl ag anableddau

6.3.1 Mae CCC wedi ailystyried cynrychiadau drama i bobl ag anableddau a bydd yn trafod cytundeb cyllido refeniw blynyddol dros ddwy flynedd gyda Hijinx Theatre a fydd yn cynnwys datblygu cynrychiadau ar gyfer cynulleidfaoedd yn y sector hwn.

## 6.4 Teithiau theatr gymuned

6.4.1 Byddai'r Strategaeth Ddrama yn cynnwys gwarant o gynrychiadau addas i gymunedau lleol, a allai lunio'r gylchdaith Noson Allan genedlaethol. Mae Hijinx Theatre yn cynnig yr elfen hon o weithgaredd a bydd y fenter Gymraeg (gweler 4.2.8.) yn cynnwys teithiau cymunedol yn yr iaith Gymraeg.

- 6.1.2 Efallai mai'r ffordd orau o ddatblygu a dangos ysgrifennu newydd ar gyfer cyflwyniadau stiwdio am y tro cyntaf fyddai gwneud hynny o fewn cyd-destun lle mae cynulleidfa sicr ar ei gyfer. Efallai y byddai'n briodol i Clwyd Theatr Cymru ei datblygu ei hun fel hyrwyddwr 'clasuron' Saesneg diweddar o Gymru - gwaith a brofwyd yn flaenorol ac y cafwyd ei fod yn debygol o barhau. Ar hyn o bryd nid oes fawr o gyfle i'r corff bychan hwn o waith gael ail-fywyd, ac mae'n briodol i'r sefydliadau cenedlaethol gymryd eu cyfrifoldebau yn y maes hwn o ddifrif.
- 6.1.3 Yn yr un modd yn achos y cwmnïau Theatr ar gyfer Pobl Ifanc. Bu ymrwymiad ers blynnyddoedd i greu gwaith newydd (naill ai trwy gomisiynau neu drwy brosesau dyfeisio gan y cast). Tra bydd y polisi tendro bwriedig yn parhau â'r traddodiad hwn ac yn ei gryfhau, rhaid sylweddoli bod y gwaith hwn yn benodol iawn i gynulleidfaoedd targed.
- 6.1.4 Mae hyn yn gadael bwch mawr o ran cefnogaeth tuag at llwyfannu dramâu newydd o Gymru. Bwriada CCC ddatblygu amrywiaeth eang o gyfleoedd ysgrifennu newydd, trwy ei gefnogaeth i fentora ar gyfer awduron sy'n datblygu ac i gyd-destunau priodol lle gellir datblygu gwaith newydd. Gall cronfa brosiectau fwy gyflenwi hyn i ryw raddau, ond mae angen sicrwydd hefyd y ceir cyfleoedd i ddatblygu a llwyfannu gwaith gydol y flwyddyn.
- 6.1.5 Bwriada CCC ddatblygu strategaethau priodol i gefnogi a chynhyrchu dramâu newydd yn Gymraeg a Saesneg. Byddai rhan o'r cynllun hwn yn golygu datblygu Theatr y Sherman (gweler adran 4.3.3 uchod) fel rhyw fath o arddangosfan i ysgrifennu newydd, o bosib gan gynnwys canolfan i ysgrifenydd. Bydd yr ymchwil a'r ymgynghori yn dechrau yn gynnar yn haf 1999, ac fe'u cwblheir erbyn hydref 1999. Bydd y gefnogaeth a roddir gan CCC ar hyn o bryd i'r cwmnïau ysgrifennu newydd, Made in Wales a Dailier Sylw, yn parhau trwy gydol 1999-2000, gyda golwg ar gael darpariaeth i'w holynu yn ei lle o fis Ebrill 2000 ymlaen. Mae CCC yn cydnabod ei gyfrifoldebau i reoli newid.
- 6.1.6 Gellid datblygu partneriaethau gyda'r cyfryngau darlledu a theledu annibynnol. Cafwyd trafodaethau cychwynnol eisoes ac mae gan bob sefydliad ddiddordeb bras mewn datblygu ysgrifennu newydd sy'n ddramatig, yn berthnasol i ardal ac eto yn eang ei apêl. Byddai ymgyrhaedd at strategaethau sy'n cryfhau'r cysylltiadau ar draws y diwydiant (gan gynnwys Prifysgolion) yn cydnabod bod datblygu gyrfa ysgrifenydd ac ymarferwyr ac, yn wir, ddatblygu'r deunydd ei hun yn gynyddol yn croesi o un cyfrwng i gyfrwng arall. Efallai y bydd prosiect partneriaeth o'r fath i ddatblygu sgiliau ysgrifenydd ar gyfer y diwydiant yn gais addas i'w gyflwyno am gyllid Amcan Un gan yr U.E.
- 6.1.7 Bydd CCC yn parhau i annog ceisiadau gan gyhoeddwyr i gyhoeddi dramâu dramodwyr o Gymru (yn unigol ac mewn cyfrolau). Mae hyn yn rhan o raglen cynhyrchu llyfrau CCC a reolir gan y swyddogion Llennyddiaeth yng Nghyfadrn Datblygu'r Celfyddydau CCC, ac mae canllawiau ar gael oddi wrthynt.

#### **Bwriada CCC:**

- ymgynghori ynglŷn â ffyrdd newydd o ddatblygu ysgrifennu newydd gan gyfeirio'n benodol at rôl Theatr y Sherman a'r angen i roi newidiadau polisi ar waith o fis Ebrill 2000 ymlaen;

- 5.5 Mae'r term Theatr ar gyfer Pobl Ifanc yn cynnwys unrhyw batrwm o ran arddull, maint a natur cyflwyno y mae'r ymarferwyr proffesiynol am eu hyrwyddo, trwy eu cynlluniau ymgynghori a chynghori. Mae CCC o'r farn fod y term hwn yn fwy buddiol na ThMA, gan gydnabod mai'r arfer yn ddiweddar fu cyflwyno amrediad mwy eang o waith ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc na ThMA yn unig. Ni fydd y cytundebau cyllido am gyfnod penodol yn diffinio arddull, maint na natur y cyflwyno yn gaeth ond byddant yn ceisio ymdrin â safonau cynhyrchu a byddant yn diffinio rhanbarth y disgwylir i bob cwmni ei wasanaethu (yn ogystal â chaniatáu rhywfaint o rôl genedlaethol).
- 5.6 Trwy'r cynigion hyn dylai fod yn bosib sicrhau cefnogaeth gynaliadwy i gyfleoedd theatr ar gyfer pobl ifanc. Gall Cyfadrannau Datblygu'r Celfyddydau helpu mewn meysydd penodol o gyflwyno theatr broffesiynol tra bo cyfadrannau eraill yn cefnogi gweithgareddau fel cyfranogiad ac artistiaid preswyl. Bydd y swyddogion yn monitro'r datblygiadau yn y dyfodol yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Strategaeth i'r Celfyddydau a Phobl Ifanc. Dim ond un o lawer o strategaethau a all greu cyfleoedd priodol ar gyfer pobl ifanc yw'r cytundebau cyllido arbenigol hyn sy'n cael eu hawgrymu.
- 5.7 Hysbysebwr y tendrau ym Mehefin 1999 a byddir yn dethol a hysbysu'r ymgeiswyr am y penderfyniadau yn gynnar yn hydref 1999. Efallai y bydd gofyn i gwmnïau na ddeholir mohonynt ystyried paratoi ar gyfer dirwyn eu gweithgarwch i ben. Mater yw hwn i'w ystyried yn fuan gan eu Byrddau hwy.
- 5.8 Byddwn yn dechrau hysbysebu'r trefniadau cyllido heb ragfarn i'r drefn apelio y manylir arni yng Nghod Ymarfer CCC. Gwneir unrhyw benderfyniad terfynol i ddyfarnu cytundebau cyllido cyfnod penodol ar ôl cael gwybod canlyniad y drefn apelio.

#### **Bwriada CCC:**

- ailwampio'r ddarpariaeth Theatr ar gyfer Pobl Ifanc sy'n seiliedig ar wyth-cwmni trwy hysbysebu nifer llai o gyfleoedd, wedi eu cyllido'n well, i ennill cytundebau cyllido am gyfnod penodol, a bod hynny i'w gyflwyno o fis Ebrill 2000.

## **6. Cynhyrchu a Theithio 3: cynulleidfa ar gyfer cwmnïau cynhyrchu a phrosiectau eraill**

*Annog cynrychiadau cartref o safon ar gyfer cynulleidfaoedd cymunedau llai: e.e. teithio cymunedol yn lleol, anghenion arbennig a phobl ag anableddau, arbrosiâu â ffurfiau ar gelfyddyd, trawsddisgyblaethol, prosiectau newydd.*

### **6.1 Ysgrifennu Newydd**

- 6.1.1 Mae ysgrifennu newydd yn sylfaenol i'r maes darparu hwn. Rhaid i ymrwymiad i ddatblygu a chynhyrchu ysgrifennu newydd gan awduron Cymreig gael ei ddangos trwy raglenni blynyddol y cwmnïau cenedlaethol a sefydliadau drama cyllid-referniw eraill - atgyfnerthir hyn trwy'r trefniadau cyllido. Mae ysgrifennu newydd o fewn y cleientiaid craidd hyn yn debygol o fod yn benodol iawn i anghenion y sefydliadau hynny.

**Bwriada CCC:**

- sefydlu Clwyd Theatr Cymru fel cwmni theatr Saesneg ei iaith o bwys cenedlaethol;
- datblygu, trwy bartneriaeth, sefydliad theatr cenedlaethol Cymraeg o bwys wedi ei seilio yng Ngogledd Orllewin Cymru;
- datblygu cynigion pendant o ran cyfuniad newydd o swyddogaethau i Theatr y Sherman ar ôl ymgynghori ym 1999;
- cefnogi'r Torch Theatre i ddarparu cynyrchiadau cartref a rhaglen fywiog a brynir i mewn ar y cyd â rôl deithio ranbarthol a chenedlaethol.

**5. Cynhyrchu a Theithio 2: Theatr ar gyfer Pobl Ifanc**

*Sicrhau bod cynyrchiadau celfyddydau perfformio arbennig ar gael yn genedlaethol sydd o safon uchel ac sy'n briodol i gynulleidfaedd ifanc.*

5.1 Ystyriaeth ganolog o ran strategaeth fu'r ddarpariaeth genedlaethol o theatr ar gyfer pobl ifanc a sefydlwyd yn y 1970au a'r 1980au ar sail yr wyth AALI blaenorol. Ar ôl cryn ymgynghori mae CCC wedi dod i'r casgliadau hyn:

- dylid parhau â pholisi cenedlaethol o theatr ar gyfer pobl ifanc i Gymru;
- y dylid ei seilio ar lai o sefydliadau, wedi eu cyllido'n well;
- y caiff y rhain eu hysbysebu'n gyhoeddus fel cytundebau cyllido am gyfnod penodol;
- y cefnogir yr wyth cwmni presennol tan fis Ebrill 2000;
- y bwriad fydd osgoi terfynu gwasanaeth;
- ni fydd ymrwymiad ariannol CCC i'r strwythur newydd yn llai na'i gefnogaeth i'r elfen theatr ar gyfer pobl ifanc/ThMA yn y model wyth-cwmni a gefnogir ar hyn o bryd.

5.2 Tan 1999-2000 mae CCC wedi cefnogi wyth o gwmnïau, a leolwyd yn ôl daearyddiaeth yr hen awdurdodau addysg, i gynhyrchu gwaith ar gyfer pobl ifanc a datblygu elfennau eraill yn y ddarpariaeth (teithio'r gylchdaith gymunedol a rhai cyd-gynyrchiadau canolog eu maint). Erbyn hyn mae diffyg adnoddau difrifol ar gyfer y rhwydwaith hwn.

5.3 Oherwydd pryder cynyddol ynglŷn â chynladwyedd, cysondeb ansawdd a newid yn yr amgylchedd y mae'r cwmnïau yn gweithredu o'i fewn (e.e. nid oes wyth awdurdod lleol sirol bellach i gyllido'r cwmnïau, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r cwmnïau bellach yn darparu gwasanaeth am ddim i ysgolion), cynhaliodd CCC ymgynghoriad arbennig ar Theatr Broffesiynol ar gyfer Pobl Ifanc (ThBPI) - gan gynnwys Theatr Mewn Addysg (ThMA) - fel rhan o'i broses ymgynghori gyffredinol ar bolisi a gwariant. Yng ngoleuni'r broses hon a chan gadw at egwyddorion 'llai a gwell, cynladwyedd a hyblygrwydd', bydd y Cyngor yn datblygu strwythur newydd yn ystod 1999 mewn pryd i ddechrau fis Ebrill 2000.

5.4 Bydd ymgynghori ag awdurdodau ac ymgynghorwyr lleol yn help i ddiffinio'r seilwaith ymhellach, cyn hysbysebu cytundebau cyllido er mwyn darparu gwasanaeth Theatr ar gyfer Pobl Ifanc sy'n ddwyieithog a chenedlaethol. Byddai disgwyl i grwpiau llwyddiannus ddenu nawdd arall fel sy'n briodol.

- 4.2.7 Cred y Cyngor mai adeiladu ar gryfderau Clwyd Theatr Cymru, gan ei galluogi i ysgwyddo cylch gorchwyl cenedlaethol a chyfrifoldeb cenedlaethol, yw'r ffordd iawn ymlaen ar hyn o bryd. Mae CCC yn cydnabod y dylai Clwyd Theatr Cymru sefydlu partneriaethau parhaol yn Ne Cymru. Byddai partneriaethau o'r fath yn cydnabod y prif ganolfannau poblogaeth a bydd CCC yn gwneud popeth a all i annog hyn.
- 4.2.8 Efallai y ceir cynigion cyffrous cyffelyb, megis gan Clwyd Theatr Cymru a Chyngor Sir y Fflint, oddi wrth bartïon gwahanol a byddai CCC yn eu croesawu.
- 4.2.9 Bydd datganiad difrifol cyffelyb yn cael ei wneud yn achos theatr trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae CCC yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cwmni cynhyrchu cenedlaethol newydd, â'i ganolfan yng Ngogledd Orllewin Cymru, o fewn amserlen fyrrach na'r un a awgrymwyd yn wreiddiol. Bydd hyn yn atgyfnerthu, ac yn adeiladu ar, rôl Cwmni Theatr Gwynedd a Theatr Bara Caws ac mae CCC yn bwriadu rhoi mwy o adnoddau i'r datblygiad newydd hwn.
- 4.2.10 Mae i'r cynnig hwn oblygiadau i gynlluniau am ddatblygiadau cyfalaf i'r celfyddydau perfformio yng Ngogledd Orllewin Cymru: yn ddi-os, bydd ei lwyddiant artistig ac o ran datblygu cynulleidfaoedd yn dibynnu ar gynllunio cydweithredol ac ewyllys da. Y dasg gyntaf yw egluro rôl y sefydliad Cymraeg ei iaith newydd hwn a'r disgwyliadau ohono. Mae CCC am arwain y trafodaethau hyn, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, ymarferwyr a grwpiau cefnogwyr a chaiff papur ymgynghorol sy'n datblygu syniadau ei gyhoeddi yn gynnar yn yr hydref 1999.
- 4.2.11 O edrych ymlaen, gellid rhagweld cydweithrediad artistig rhwng y ddau gleient drama CCPCC, ynghyd â chydweithredu gyda sefydliadau cynhyrchu, hyfforddi a chyflwyno eraill.
- 4.3 Theatr gynhyrchu seiliedig ar adeiladau**
- 4.3.1 Yn ogystal â chefnogi'r ddau CCPCC, bydd CCC yn parhau i gefnogi'r Torch Theatre a'r Sherman, er y bydd yn rhaid i'r naill fel y llall newid eu polisi rhaglennu.
- 4.3.2 Mae CCC yn bwriadu parhau i gefnogi'r Torch Theatre er mwyn cynhyrchu a chyflwyno theatr fyw. Dylai cynrychiadau'r Torch gyrraedd cynulleidfa ehangach a disgwylir i'r Torch deithio i ganolfannau o faint tebyg am o leiaf bedair wythnos y flwyddyn. Byddir yn edrych yn fanwl ar opsiynau er cyflawni hyn yn 2000-2001.
- 4.3.3 Bydd CCC yn ymgynghori ynglŷn â newid pwyslais i Theatr y Sherman, gyda rôl ganolog i ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd a ysgrifennwyd yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn rhoi i'r Sherman rôl strategol allweddol i hybu'r awduron sy'n ysgrifennu ar gyfer y llwyfan mewn cydweithrediad agos ag asiantaethau eraill. Bydd CCC yn cadw at ei ymrwymiad i'r lefelau presennol, neu lefel uwch, o gymorth i weithgareddau sy'n hanu o'r Sherman.
- 4.3.4 Dechreuir ymgynghori ynglŷn â hyn yn gynnar yn haf 1999, gyda'r nod o gwblhau'r ymgynghori erbyn hydref 1999 er mwyn rhoi cyfnod trawsnewid i unrhyw fenter newydd, yn Ebrill 2000. Mae CCC yn ymrwymo i reoli newid mewn modd cyfrifol yn ystod y cyfnod trawsnewid.

## 4.2 Cwmnïau Celfyddydau Perfformio Cenedlaethol Cymru (CCPCC)

4.2.1 Cred CCC y gall llawer o artistiaid o Gymru, o gael y cyfle a'r adnoddau, gyrraedd y safonau proffesiynol uchaf yn y prif draddodiadau a fydd cyfuwch â'r safonau a gyrhaeddir gan y Cwmni Opera Cenedlaethol a Cherddorfa Genedlaethol y BBC yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn edrych ar bortffolio o Gwmnïau Celfyddydau Perfformio Cenedlaethol Cymru a bwriada gynorthwyo'r cwmni dawn, Diversions, i gymryd cam tuag at y statws hwn. Mae cynnwys theatr yn golygu mentro mwy eto.

4.2.2 O ran darpariaeth y brif ffrwd, dylai Cymru gael cyfle i herio'r gorau ym Mhrydain tra'n rhoi gwasanaeth o safon i gynulleidfaoedd a statws i Gymru. Nid yw hyn yn rhagdybio trafodaeth am theatrau 'Cenedlaethol' a fyddai, mewn difrif, yn golygu mwy o adnoddau nag sydd ar gael i CCC, ond, yn wir, mae'n datblygu'r cysyniad o gylich gorchwyl cenedlaethol a chyfrifoldeb cenedlaethol ac mae'n rhoi statws i gelfyddyd Cymru.

4.2.3 Dylai dau sefydliad drama CCPCC gydag adnoddau da sicrhau:

- sefydliadau drama uchel eu statws o ddiddordeb yn genedlaethol a thramor;
- dau sefydliad diwylliannol gwahanol a fydd yn cynrychioli uchelfannau'r proffesiwn traddodiadol mewn theatr lenyddol a theatr llwyfan mawr;
- cynrychiadau o safon a fydd yn teithio i ganolfannau yng Nghymru;
- polisiau egniol ar gyfer pobl ifanc;
- posibiliadau i actorion, awduron a chyfarwyddwyr i ddatblygu eu gyrfa;
- polisiau bywiog i annog ysgrifennu newydd;
- cynlluniau mentora a hyfforddi;
- sefydliadau sylweddol mewn theatr fyw y gall cydweithwyr yn y cyfryngau darlledu ffurfio partneriaethau â hwy - e.e. (ar gyfer prosiectau ysgrifennu newydd ac i hyfforddi cyfarwyddwyr).

4.2.4 Dylid ystyried datblygu'r cwmnïau CCPCC Cymraeg a Saesneg fel cynlluniau newydd, yn adeiladu ar y gelfyddyd a'r adnoddau sydd ar gael yn barod a chan ddatblygu arnynt. Dylid cyllido'r ddau sefydliad ar gyfer eu swyddogaethau teithio a chynhyrchu cenedlaethol a cheir trafodaeth i bwysu a mesur ai da o beth fyddai eu gwahanu'n gyfansoddiadol oddi wrth yr adeilad sy'n gartref iddynt.

4.2.5 Mae'r Cyngor wedi pennu Clwyd Theatr Cymru yn CCPCC trwy gyfrwng y Saesneg. Bydd Cytundeb Cyllido CCC gyda chyngor Sir y Fflint, y partner cyllido a'r rhiant awdurdod, yn diffinio'r drefn gynllunio a'r partneriaethau gyda chanolfannau cyflwyno ledled Cymru.

4.2.6 Mae CCC yn bwriadu helpu Clwyd Theatr Cymru i gyflwyno rhagoriaeth a hyrwyddo celfyddyd Cymru gerbron pobl Cymru. Rhaid i Clwyd Theatr Cymru wneud argraff artistig fawr yn y dyfodol. Mae CCC yn hyderus y bydd Clwyd Theatr Cymru yn ymateb i'r her a rhaid i hynny olygu ymgyrraedd at a llunio partneriaethau sy'n debygol o barhau ar draws Cymru. Roedd yr angen am fwy o gynnyrch uchel ei safon o Gymru ac am atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng cyflwynwyr a chynhyrchwyr yn themâu a glywyd dro ar ôl tro yn ystod y broses ymgynghori. Bydd cefnogi Clwyd Theatr Cymru yn ymrwymiad mawr a bydd y cytundeb cyllido yn diffinio gwasanaethau helaeth i sicrhau mwy o gynulleidfa i waith o safon uchel.



- 3.6 Mae CCC yn ymroi i hybu gwaith arloesol a newydd. Bydd datblygu ysgrifennu newydd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn parhau yn flaenoriaeth. Mae angen datblygu ysgrifennu newydd yn ofalus ac awgrymir ymgynghori pellach er mwyn trafod y dulliau gorau o gefnogi'r maes pwysig hwn, a allai gynnwys datblygu partneriaethau â'r cyfryngau darlledu.
- 3.7 Dylai cynlluniau hyfforddi a mentora gynorthwyo datblygiad gyrfaedd artistiaid heb addo unrhyw ysgol yrfa 'fertigol' - ond gallai posibiliadau fodoli ar draws arddulliau a chyfryngau a bod gofyn crynhoi sgiliau priodol ar eu cyfer. Dylai'r prif sefydliadau cynhyrchu allu datblygu, denu a chadw hufen y proffesiwn, a rhaid i ni barhau i gefnogi'r ymchwil fwyaf blaengar ym maes y celfyddydau. Rhaid peidio â cholli gwaith arloesol a gellir ei feithrin mewn gwahanol ffyrdd, fel sy'n briodol, o fewn pob maes o gynhyrchu theatr.
- 3.8 Mae'r adrannau isod, sy'n disgrifio'r newidiadau i strategaeth ddrama CCC, yn dechrau ag is-amcan(ion) mewn teip italig. Mae'r rhain yn gyfeirnodau allweddol. Ceir datganiadau cyffelyb ar gyfer ffurfiau eraill ar gelfyddyd. Disgrifiant yr hyn y bydd cefnogaeth CCC yn ceisio ei sicrhau er mwyn cefnogi ac annog cynhyrchu gwaith o'r safon uchaf gan artistiaid Cymreig a hyrwyddo, cyflwyno a theithio â'r gwaith hwnnw.

#### 4. Cynhyrchu a Theithio 1: y gynulleidfa gyffredinol

*Galluogi cwmnïau Celfyddydau Perfformio Cenedlaethol Cymru mewn dawns, drama, cerddoriaeth ac opera i ragori, cyrraedd niferoedd mawr o bobl yng Nghymru a rhoi budd economaidd i Gymru.*

*Darparu i'r brif ffrwd o gynulleidfaedd raglenni safonol o gynrychiadau, a gynhyrchwyd gartref.*

##### 4.1 Y Sefyllfa Bresennol

- 4.1.1 Ar hyn o bryd mae CCC yn cefnogi pedwar cwmni cynhyrchu, a leolir mewn adeiladau, sydd â'u canolfannau rhanbarthol yn yr Wyddgrug, Bangor, Aberdaugleddau a Chaerdydd. Nid oes yr un ohonynt yn gweithredu hyd eithaf eu potensial llawn i gynhyrchu a theithio.
- 4.1.2 Canolir yr adnoddau yn y maes hwn. Cydnabyddir nad yw'r un o'n cwmnïau a leolir mewn adeiladau wedi cael digon o adnoddau yn y gorffennol i ymestyn ei faes gorchwyl i gynnwys teithio cenedlaethol sylweddol. Yn gefndir hefyd mae'r ffaith bod y pedwar sefydliad hyn, gyda'i gilydd, yn cael cefnogaeth sylweddol gan awdurdodau lleol. Ar adeg pan fo CCC yn pwysu'n gynyddol ar yr awdurdodau rhaid cydnabod hyn fel rheswm cryf dros eu cynnal gyda swyddogaethau sy'n hyrwyddo'r strategaeth hon ac sy'n ennyn cefnogaeth partneriaid CCC o blith yr awdurdodau lleol. Mae'r pedair canolfan yn rhwydwaith datblygu cynulleidfaedd hollbwysig o ran darpariaeth strategol ym maes cynhyrchu a chyflwyno drama.
- 4.1.3 Mae CCC yn bwriadu cryfhau'r ddarpariaeth hon a chryfhau teithio i'r gylchdaith o ganolfannau trwy gefnogi dau gwmni teithio cenedlaethol ag adnoddau da, y naill yn gweithio yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.

2.3 Mae strategaethau rhyngwladol CCC yn annog cydweithredu a rhoi gwaith o Gymru ar lwyfannau Ewrop a'r byd.

### 3. Y weledigaeth.

- 3.1 Wrth galon yr hyn yr ydym am ei gyflawni y mae theatr broffesiynol i Gymru o'r safon uchaf a chyda'r uchelgais mwyaf posib, sy'n cyrraedd mwy o bobl yng Nghymru a, thrwy ei phoblogrwydd, yn ennill cryfder economaidd. Geilw hyn am agweddau newydd at seilwaith, a rhaid iddynt roi lle canolog i bartneriaethau, yn enwedig gydag awdurdodau lleol a sefydliadau cyflwyno.
- 3.2 Un o bryf gryfderau'r ddrama yng Nghymru fu ei hamrywiaeth. Nod y strategaeth ddrama hon yw darganfod gwell cydbwysedd rhwng amrywiaeth, ansawdd a chynladwyedd - i sicrhau hyd y bod modd, bod tangyllido difrifol ym mhob rhan o'r maes yn lleihau ac y crëir cnewyllyn o ddarpariaeth theatr ragorol a gynhyrchir gartref ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, ac i ddenu sylw rhyngwladol.
- 3.3 Un feirniadaeth allweddol ar y cymorth a rydd CCC ar hyn o bryd i ddrama yw na fu'n hawdd, oherwydd amgylchiadau hanesyddol, i grwpiau artistiaid theatr llwyddiannus sicrhau statws cyllid refeniw, nac i CCC amddifadu cleientiaid o'r statws hwnnw. Mae'n amlwg fod yn rhaid cael gwell cydbwysedd rhwng sefydlogrwydd a hyblygrwydd.
- 3.4 O 2000-2001 mae CCC yn bwriadu cefnogi tua hanner nifer y cleientiaid drama refeniw a gefnogwyd ym 1998-99. Sefydliadau cynhyrchu strategol yn cael cyllid refeniw am gyfnod penodol fydd y rhain, a bydd cytundeb cyllido manwi yn sail i'r trefniant ym mhob achos. Bydd hyn yn newid mawr o roi cyllid refeniw i 20 o sefydliadau, fel a wnaed yn ddiweddar. Rhoddir cefnogaeth i waith yn yr iaith Gymraeg ym mhob sector a bydd y gefnogaeth yn gyfwerth â'r lefelau cyfredol o leiaf gyda'r bwriad pendant o ehangu'r gefnogaeth trwy'r cynnig i sefydlu 'pwerdy' newydd (gweler 4.2.8); rhoddir mwy o gefnogaeth trwy gynlluniau prosiect nag ar hyn o bryd a neilltuir mwy o gyllid er mwyn gallu gwneud hynny.
- 3.5 Er mwyn cryfhau cysylltiadau strategol - yn enwedig rhwng cynhyrchwyr a chyflwynwyr - rhaid bod tystiolaeth o gynllunio a phartneriaethau ar draws yr holl ystod e.e. artistiaid preswyl yng nghyd-destun awdurdodau lleol; cwmnïau cynhyrchu yn cynllunio teithiau ar y cyd â chyflwynwyr allweddol. Mae hyn yn rhagdybio bodolaeth rhwydweithiau 'galw a chyflenwi' ac iddynt adnoddau da - gellir sicrhau peth o'r cyflenwad trwy gefnogaeth y Cyngor i gynhyrchu celfyddydau proffesiynol. Sialensiau cyfochrog i CCC fydd sicrhau:
- ar yr ochr alw, rhwydwaith o ganolfannau sydd ag adnoddau digonol y gall cwmnïau drama gysylltu â hwy, ac
  - awdurdodau lleol sydd â thimau Datblygu'r Celfyddydau a chyllidebau i ddatblygu a chyflwyno strategaeth i gefnogi'r celfyddydau yn lleol.
- 3.5 Rhoddodd yr arolwg drama sylw hefyd i gryfhau cysylltiadau o fewn y 'diwydiant drama' yn ei gyfanrwydd - rhwng addysg uwch, theatr fyw a'r cyfryngau darlledu. Mae'r pryderon sy'n gyffredin i'r sectorau yn gryf, a byddai cryfhau'r cysylltiadau yn help i gynyddu'r cyfleoedd gwaith ar draws sectorau.

- 1.3 Cynlluniwyd y strategaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol sy'n hysbys a chan ystyried y ffactorau gwleidyddol perthnasol: mae'n parchu, er enghraifft, y cyfyngiadau ar wariant ac awydd y Cyngor i gadw cefnogaeth yr awdurdodau lleol a'i bartneriaethau gyda hwy. Mae'r Cyngor o'r farn fod y strategaeth yn cynnig yr ateb gorau i rai sefyllfaoedd anodd.
- 1.4 Mae CCC yn ymrwmo i fod yn deg ac i reoli newid mewn modd cyfrifol. Bydd rhoi'r strategaeth ddrama ar waith yn golygu bod cwmnïau theatr sydd wedi ennill eu plwyf yn colli eu grant refeniw er mwyn gallu cyllido nifer llai o sefydliadau yn well dan drefniadau gwahanol. Bydd hefyd yn golygu newidiadau yn rôl rhai cyrff eraill. Mae amserlen wedi ei hawgrymu yn yr adrannau perthnasol isod ar gyfer pob maes lle ceir newidiadau.
- 1.5 Mae CCC yn awyddus i sicrhau cynifer o gyfleoedd gwaith â phosib i artistiaid o Gymru. Bydd gofyn i'r rhai sy'n cael cyllid dan y strategaeth ddrama gyflwyno amcangyfrifon ac ystadegau cyflogi yn rheolaidd, gan nodi yn enwedig nifer yr wythnosau gwaith i actorion.

## 2. Y prif bryderon

- 2.1 Roedd yr angen i roi sylw i'r ddarpariaeth ddrama yn uchel ar agenda'r Cyngor yn yr adolygiad gwariant. Dyma'r prif bryderon: fod sefydliadau a'u cynnyrch yn mynd yn llai cynaliadwy am na fu cynnydd yn y cymhorthdal ers blynyddoedd; dibynnu fwyfwy ar gefnogaeth CCC ynghyd â lleihad mawr yng nghymhorthdal yr awdurdodau lleol; a chnewyllyn o gleientiaid refeniw a ddatblygodd am nifer o resymau hanesyddol ac a fu'n weddol ddigyfnewid. Roedd hyn oll gyda'i gilydd yn cyfateb i nifer fawr o gleientiaid a nodweddir gan 'erydu' cynyddol ar safonau artistig a hyblygrwydd am nad ydynt yn cael eu cyllido'n ddigonol, a phrin yw'r cyfleoedd i syniadau a doniau newydd ddod i'r amlwg.
- 2.2 Mae'r strategaeth er mwyn unioni hyn yn rhoi sylw i'r ystyriaethau sy'n effeithio'n benodol ar ddrama, ac yn adlewyrchu'r ystyriaethau corfforaethol y mae'n rhaid i CCC eu cydnabod, yn arbennig:
  - yr angen i roi cefnogaeth i gynhyrchu gwaith proffesiynol o safon artistig uchel;
  - sicrhau bod y gwaith hwnnw o fewn cyrraedd i bobl ledled Cymru - yn enwedig mewn ardaloedd lle bu'r ddarpariaeth yn gymharol annigonol yn y gorffennol a bydd y nod hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Cytundebau Cyllido gyda chleientiaid;
  - cefnogi drama yn yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar draws holl feysydd y ddarpariaeth;
  - rhoi sylw i'r angen am bartneriaethau strategol cryfach - yn enwedig rhwng cynhyrchwyr a chyflwynwyr;
  - creu mwy o hyblygrwydd cyllido tra'n cynnal amrywiaeth o 'leisiau';
  - sefydlu o'r cychwyn fod llai o sefydliadau a'r rheini wedi eu cyllido'n well yn newid angenrheidiol er mwyn sicrhau safon uwch. Y nod yw bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy, heb gyfaddawdu ar ansawdd.

Mae CCC yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn hefyd trwy strategaethau eraill. Er enghraifft, bydd polisi newydd ym 1999-2000 ar gyflwynwyr y celfyddydau perfformio yn dechrau creu cylchdaith o ganolfannau a gyllid yn well, a bydd cynllun Celfyddydau a Phobl Ifanc CCC yn rhoi cyd-destun i'r ffordd newydd o ymdrin â theatr i bobl ifanc a ddisgrifir yma.

## Strategaeth Ddrama i Gymru

### Y Cefndir i'r papur hwn

Mae'r Strategaeth Ddrama hon yn adlewyrchu themâu a gyflwynwyd ym mis Mehefin 1998 pan lansiodd CCC adolygiad gwariant cynhwysfawr. Yn y papur craidd, Adeiladu Cymdeithas Greadigol, codwyd materion i ymgynghori yn eu cylch ac fe'u trafodwyd mewn cyfarfodydd gyda gwahanol garfanau'r celfyddydau a chefnogwyr ledled Cymru. Ysgogwyd yr ymgynghori gwreiddiol ym maes drama gan bapur crynhoi yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddrama a chan bapur ar wahân ar theatr i bobl ifanc. Cyhoeddwyd cynigion penodol ar gyfer y ddrama broffesiynol fel Strategaeth Ddrama Ddrafft ym mis Ionawr 1999 ac, ar ôl cyfnod o ymgynghori, aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati i bwysu a mesur mewn cyfarfod ar 19 Mawrth. Gellir cael dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghori cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrama Ddrafft oddi wrth CCC.

Mae'r Strategaeth Ddrama a nodir isod yn cynnwys gwybodaeth ar amseriad cyflwyno'r newidiadau. Os bydd rhaid newid y targedau hyn byddwn yn rhoi gwybod i'r rhai yr effeithir arnynt.

Corff galluogi yw CCC yn ei hanfod; dim ond trwy broses ddwyffordd rhwng partneriaid cyllido CCC a'r artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol hynny sy'n gwneud ac yn cyflwyno'r celfyddydau y gellir gwireddu'r amcanion a'r dyheadau a nodir yn y strategaeth hon. Rhaid hefyd fod cyllid digonol ar gael er mwyn cyflawni'r amcanion.

Seiliwyd y cynigion ar y rhagdybiaeth y bydd CCC yn derbyn cymhorthdal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r rhagamcanion cyfredol am y tair blynedd nesaf, heb unrhyw dwf uwchlaw chwyddiant: bydd CCC yn parhau i bwysu y gellid cyflwyno'r celfyddydau yng Nghymru - a'r strategaeth hon - gyda mwy o effaith ar ansawdd bywyd pobl Cymru pe bai mwy o adnoddau ar gael.

### 1. Cyflwyniad i'r Strategaeth Ddrama

- 1.1 Y theatr broffesiynol sy'n derbyn y dyraniad mwyaf o gymhorthdal CCC, sef swm o £3.3 miliwn yn 1999-2000. Y nod dros y tri degawd diwethaf oedd sicrhau bod gennym theatr unigryw sy'n gwasanaethu pobl Cymru. Bu'r goblygiadau o safbwynt, er enghraifft, dwyieithrwydd, amrywiaeth, darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, yn enfawr.
- 1.2 Mae'r gostyngiad mewn cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau, ac i ddrama yn arbennig, wedi golygu na ellir atgyfnerthu a datblygu'r amrediad hwn o waith. Ni fydd y rhagamcanion cyllido cyfredol yn caniatáu llawer o dwf yng nghefnogaeth CCC i ddrama: mae'r strategaeth hon wedi ei seilio ar osgoi tangyllido trwy ganoli adnoddau, rhoi'r llwyfan a'r statws gorau posib i artistiaid o Gymru a gwasanaethu pobl Cymru yn y cyfnod cyffrous a phwysig hwn sy'n wynebu'r genedl Gymreig.

20 October 1999

Bethan Jones  
Dalier Sylw  
Chapter Arts Centre  
Market Road  
Canton  
Cardiff  
CF5 1QE

**CONFIDENTIAL**

Dear Bethan

**Drama Strategy: New Writing**

You will know that the meeting of the Arts Council of Wales last Friday 15 October 1999 considered the new writing issue as introduced in the Drama Strategy and subsequently debated in consultation.

The original proposal suggested a dedicated new writing operation based in the Sherman Theatre building and, in some way, absorbing in whole or in part, the roles previously undertaken by Made in Wales Stage Company and Dalier Sylw. These roles, taken together, cover a range of support to new writing, its development, staging and advocacy. In considering these factors, Council has also been reminded of the considerable contribution of the current Sherman Theatre toward staging new writing and opportunities for writers.

Consultation responses generally concentrated on what many perceived as the less defined areas of the new writing element in the Drama Strategy. Among concerns expressed were the resourcing of any new proposal and its relation to the existing Sherman Theatre operation.

Council noted that the economics of the Sherman Theatre make substantial change to its programming impossible unless a particular programming strand is replaced by one of equal box office potential - or additional subsidy is found. Furthermore, and mindful of likely changes to the provision of performing arts venues following the opening of the Millennium Centre, it is arguably not in the public interest for ACW to promote a policy which reduces public attendance to and participation with the Sherman Theatre activity.

Consultation submissions from writers and on behalf of a new writing 'engine' or company based within the Sherman building (i.e. in an arrangement utilising the Sherman Arena/Studio) were numerous and strong. Council has therefore decided to proceed with the core proposal in this section of the Strategy which is to offer a funded opportunity for a new writing operation, believing that there is considerable potential for synergies and mutual co-operation within the Sherman building, with the existing Sherman operation. Council intends continuing to fund Sherman Theatre Ltd under its current policies.



We assume that the new organisation or initiative will be 'in residence' at the Sherman for its public activities but, will need to rehearse and have office space elsewhere.

This leads to the question of how a new operation is to come into being and Council wishes to offer the initiative to the three companies most affected in the first instance. In inviting Made in Wales, Dalier Sylw and the Sherman Theatre to offer propositions, we know you have already offered an outline proposal in response to consultation. You may wish to review this or alternatively, to provide another approach. You should bear the following in mind:

- a. the ACW decision invites the Sherman Theatre Ltd to be a partner to whichever bid is successful. The Sherman Theatre is also free, if it so wishes, to be an applicant either singly or in partnership with others;
- b. ACW would like all three companies to consider ways in which the expertise and facilities currently available can be preserved and developed - though we are conscious that resources are very limited;
- c. it is for this reason that partnerships are of crucial importance both with other theatres, professional and amateur, presenters, publishers, the media etc. as debated during consultation. In particular, and assuming the new writing centre is a separately constituted organisation, partnership with the Sherman Theatre Ltd is essential to provide the broadest benefit for public money;
- d. ACW is prepared to offer £170,000 as an annual revenue grant to the most promising proposal. This must operate in Welsh and in English;
- e. the opportunity to bid for this is offered to the Sherman Theatre, Dalier Sylw and Made in Wales in the first instance, applying separately, in consortia with each other or with other parties. Should the ensuing propositions not be satisfactory, the Council reserves its right to open the opportunity to other parties through some form of wider advertisement;
- f. the proposed new writing centre working out of the Sherman Studio should reflect ACW's broader aim to build bridges between presenters and producers throughout Wales;
